# Beth mae angen i chi ei wybod am y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

Chartered Institute of Housing
Cymru

## Cefndir

Daw'r Bil yn sgil ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Papur Gwyrdd 'Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros Ein Pobl'. Yn 2018, sefydlodd Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol y Gweithgor Llywodraeth Leol. Ei ddiben oedd gweithio trwy bartneriaeth a pharch a rennir, i ddatblygu agenda ar y cyd dros ddiwygio sy'n sicrhau cynaladwyedd llywodraeth leol a darpariaeth gwasanaethau lleol.

Gan ddilyn argymhellion gweithgor Llywodraeth Cymru a ystyriodd sut i symud y gwaith hwn ymlaen, gwnaed argymhellion ar feysydd fu'n cynnwys uno gwirfoddol, pwerau a hyblygrwydd a gwasanaethau a rennir.

Yn bennaf mae'r brîff hwn yn ystyried darpariaethau Rhan 5 (Cydweithio gan Brif Gynghorau) a Rhan 7 (Uno ac Ailstrwythuro Prif Ardaloedd).

## Beth yw'r newidiadau arfaethedig?

Mae'r Bil yn cyflwyno nifer o newidiadau nad ydynt yn gysylltiedig â gwaith y sector tai gan gynnwys estyn hawliau pleidleisio i bobl 16 a 17 oed, mwy o ryddid i gynghorau lleol ddewis eu system bleidleisio a rhoi hwb i gynyddu amrywiaeth ymysg aelodau gweithredol cynghorau.

Bydd y Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i sefydlu cydbwyllgor corfforaethol i weithredu swyddogaethau heb gais gan brif gynghorau ond dim ond mewn perthynas â swyddogaethau penodol sydd wedi'u pennu ar wyneb y Bil. Y meysydd y gall Gweinidogion Cymru sefydlu cydbwyllgor corfforaethol ar eu cyfer yw trafnidiaeth, datblygu economaidd, cynllunio strategol i ddatblygu a defnyddio tir a gwella addysg.

Dewiswyd y meysydd hyn yn benodol gan eu bod eisoes yn meddu ar foddau o gydweithio, a thybir y bydd canolbwyntio ar wella'r meysydd hyn ymhellach yn cynyddu cysondeb.

Mae'r Bil hefyd yn darparu pŵer i alluogi prif gynghorau i uno o'u gwirfodd ac ailstrwythuro prif ardaloedd.

## Barn CIH Cymru

- Croesewir yn gryf mynegiad y Gweinidog y gellir ymchwilio i ffyrdd o gymryd camau tuag at ddarparu hawl i gartref digonol
- Dylai cynlluniau gyfeirio at, ac ystyried cysylltiadau ag, agenda creu lleoedd Llywodraeth Cymru
- Dylai arbenigedd a mewnwelediad gweithwyr tai proffesiynol awdurdodau lleol fod yn ystyriaeth allweddol wrth siapio gwaith ar y cyd ac unrhyw drefniadau uno arfaethedig.
- Dylai trefniadau gweithio ar y cyd gadw mewn cof yr adolygiad annibynnol o'r cyflenwad tai fforddiadwy o fewn argymhellion Cymru sy'n ymwneud â defnyddio tir, capasiti awdurdodau lleol, a chreu lleoedd.

## Mwy o wybodaeth

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth bellach am y bil ar hafan y bil yma.

Mae'r Bil yn cael ei ystyried a'i graffu gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar hyn o bryd.

**Bydd CIH Cymru yn darparu tystiolaeth ysgrifenedig mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn erbyn 2 Ionawr 2020.**

Byddem yn croesawu unrhyw wybodaeth gan aelodau i'n helpu cyfeirio a siapio ein cyfraniad. Cysylltwch â matthew.kennedy@cih.org os oes gennych unrhyw beth i'w gyfrannu mewn perthynas â'r gwaith hwn.